

HARRI (HENRY) VII (1457 - 1509), brenin Lloegr

Enw: Henry

Dyddiad geni: 1457

Dyddiad marw: 1509

Priod: Elizabeth

Plentyn: Mary

Plentyn: Arthur

Plentyn: Roland de Velville

Rhiant: Margaret Tudor (née Beaufort)

Rhiant: Edmund Tudor

Rhyw: Gwryw

Galwedigaeth: brenin Lloegr

Maes gweithgaredd: Milwrol; Gwleidyddiaeth a Mudiadau Gwleidyddol; Teuluoedd Brenhinol a Bonheddig

Awdur: Thomas Jones Pierce

Ganwyd (ar ôl marw ei dad) yng nghastell Penfro, 28 Ionawr 1457, yn fab i [Edmund Tudur](#), yn nai i [Jasper Tudur](#), ac yn wyr i [Owain Tudur](#); ei fam oedd Margaret Beaufort, etifedd hawliau plaid Lancaster i'r orsedd, a'i wraig oedd Elisabeth o York, disgynnydd drwy'r [Mortimeriaid](#) o [Lywelyn ap Iorwerth](#). Cronnid felly ar ben Harri nid yn unig hawl i orsedd Lloegr ond hefyd draddodiadau a hawliai iddo ymlyniad llawer o Gymry. Magwyd ef yng Nghymru dan ofal ei ewythr [Jasper](#).

Wedi cwmp achos Lancaster yn 1471, ffoes [Jasper](#) a Harri i Lydaw, ac yno y buont hyd y tiriad yn Aberdeugleddau ar 7 Awst 1485, a agorodd gyfnod newydd a phwysig yn hanes Prydain. Ymdeithiodd Harri drwy'r Deheudir i Amwythig, ac ar 22 Awst lladdwyd Rhisiart III ar faes Bosworth, a choronwyd Harri 'n frenin yn ei le. Teimlai'r Cymry 'n awr fod 'coron Prydain' yr eilwaith yn eu meddiant, a daroganau'r brudwyr wedi dyfod i ben. A serch mai prin y sangodd Harri ar dir Cymru wedyn, eto nid anghofiodd ei gysylltiadau Cymreig, llai fyth ei ddyled i wyr y Deheudir. Galwodd ei fab hynaf yn 'Arthur,' a mynnodd gart yn dangos ei achau Cymreig. A serch mai tri Chymro 'n unig, hyd y gwyddys, a gafodd swyddau cyfrifol yn agos at berson y brenin, yr oedd amryw Gymry ymysg gwyr y llys, megis un o'i gefndryd o [deulu Penmynydd](#), a Roland Velvile (y dywedid ei fod yn fab gordderch i'r brenin), a gafodd diroedd a swydd ym Môn yn ddiweddarach. Y mae copi o ewylllys Roland Vevile (ei dyddiad yw 6 Mehefin 1535) yn N.L.W. MS. 1600, t. 94.

Eto i gyd, mor ansicr oedd Harri ar ei orsedd ac mor ddiorffwys y bu'n rhaid iddo wyllo dros ei fuddiannau fel nad oedd ddisgwyl iddo ymroi i lunio polisi arbennig tuag at Gymru. Ar y gorau, ni ellir ystyried gweithrediadau cyngor y goror a mesurau cyllidol cryfion Harri ond fel math o ragarweiniad - damweiniol - i'r polisi o uno Cymru a Lloegr a roddwyd mewn grym gan Harri VIII. Am y gyfres o siarteri a roes Harri VII i'r Cymry, cofier y bu'n rhaid i'r sawl a'u cafodd ofyn amdanynt, ac nad oeddynt mewn gwirionedd ond cydnabod cyfnewidiadau a oedd eisoes ar droed - yr oedd yr hen gosbedigaethau a'r hen atalfaedd caethiwus wedi hen golli eu grym.

Bu farw yn Richmond, 21 Ebrill 1509.

Awdur

Yr Athro Thomas Jones Pierce, (1905 - 1964)

Ffynonellau

Oxford Dictionary of National Biography

Seton-Watson, gol., *Tudor studies presented by the Board of Studies in History in the University of London to Albert Frederick Pollard* (1924)

Trafodion Anrhydeddus Gymdeithas y Cymmrodorion, 1917-8, 3-59

Darllen Pellach

Erthygl Wicipedia: [Harri VII, brenin Lloegr](#)

Delweddau

William Ridley, [Henry VII](#)

George Vertue, [King Henry VII](#)

John Payne, [Henry VII](#)

Nathaniel Parr, [K. Henry VII](#)

LIGC: [Henry VII](#)

LIGC: [Margaret, Countess of Richmond and Derby who built St. Winifride's crypt and chapel](#)

Dolenni Ychwanegol

VIAF: [268547728](#)

Wikidata: [Q675493](#)

Dyddiad cyhoeddi: 1953

Hawlfraint Erthygl: <http://rightsstatements.org/page/InC/1.0/> 

Mae'r Bywgraffiadur Cymreig yn cael ei ddarparu gan Lyfrgell Genedlaethol Cymru a Chanolfan Uwchefrydiau Cymreig a Cheltaidd Prifysgol Cymru. Mae ar gael am ddim ac nid yw'n derbyn cymorth grant. Byddai cyfraniad ariannol yn ein helpu i gynnal a gwella'r wefan er mwyn i ni fedru parhau i gydnabod Cymry sydd wedi gwneud cyfraniad nodedig i fywyd yng Nghymru a thu hwnt.

Ewch i'n [tudalen codi arian](#) am ragor o wybodaeth.

